



Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad yr ymweliad
Lefel y dilyniant: Gwelliant sylweddol**

**Ysgol Santes Helen
Twtl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1PF**

Dyddiad yr ymweliad: Rhagfyr 2012

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**



ⓂHawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Y tîm monitro

Ann Jones	Arolygydd Cofnodol
Dyfrig Ellis	Arolygydd Tîm

Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Santes Helen wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Medi 2011.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o unrhyw weithgarwch dilynol.

Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

Argymhelliad 1: Godi safonau ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ar draws yr ysgol, mae'r holl ddisgyblion yn defnyddio ystod dda o ffurfiau ysgrifenedig gan gynnwys nifer o enghreifftiau o ysgrifennu estynedig mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd. Mae safon ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf ohonynt yn llunio darnau i wahanol bwrpasau ac mewn ystod o sefyllfaoedd diddorol. Ar y cyfan, maent yn ysgrifennu yn gywir ac yn gwneud defnydd priodol o atalnodi sylfaenol. Mae'r disgyblion mwy abl yn llwyddo i ysgrifennu'n estynedig. Mae safon cyflwyniad y gwaith ysgrifenedig yn datblygu'n dda. Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer deilliant 5 yn 2012 yn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn gryf ac maent yn well na chanlyniadau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith. Maent yn gwneud defnydd priodol o baragraffau ac yn atalnodi eu gwaith yn gywir. Mae medrau trawsieithu disgyblion yn datblygu'n dda. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion y gwahanol ffurfiau ysgrifenedig ac maent yn sillafu'n gynyddol gywir yn y ddwy iaith. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith yn daclus ar y cyfan. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol mae'r disgyblion mwyaf galluog yn ysgrifennu'n gywir ac yn estynedig mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y ddwy iaith. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2013 yn dangos parhad yn y cynnydd hwn.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r ysgol wedi datblygu portffolios ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg ac mae hyn wedi gwella dealltwriaeth athrawon o'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud. Mae systemau cymedroli a safoni gwaith ysgrifenedig hefyd wedi gwella. Mae'r ysgol wedi mireinio'r ffordd o gofnodi cynnydd disgyblion unigol yn y ddwy iaith er mwyn codi safonau ymhellach.

Argymhelliad 2: Codi safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae safonau a'r cynnydd a wna rhan fwyaf y disgyblion ar draws y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus a gwybodus

wrth ddwyn i gof a thrafod eu gwaith blaenorol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws amryw o feysydd y cwricwlwm ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r defnydd o dechnoleg rheoli yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae mwyafrif disgyblion hyn y Cyfnod Sylfaen yn cynllunio a gweithredu gorchmynion cymhleth ar gyfer rheoli tegantau. Mae'r ardaloedd chwarae creadigol yn y Cyfnod Sylfaen yn cynnig profiadau gwerthfawr ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Erbyn Blwyddyn 2 mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau trin data yn dda.

Mae elfennau cyfathrebu yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda. Gall y mwyafrif o ddisgyblion gyflwyno gwybodaeth yn effeithiol gan ddefnyddio ystod o feddalwedd priodol. Mae ychydig o ddisgyblion yn ymwybodol o gryfderau ac addasrwydd pecynnau prosesu geiriau ac maent yn gwneud dewisiadau annibynnol yn seiliedig ar natur y dasg. Fodd bynnag, nid yw'r medrau bas data a modelu wedi eu datblygu ddigon a gwelir yr un math o graffiau yn cael eu defnyddio gan y disgyblion o flwyddyn i flwyddyn.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r we yn hyderus er mwyn ymchwilio gwybodaeth ac mae'r rhan fwyaf yn dethol ffeithiau o ystod o ffynonellau. Serch hynny, ychydig o blant sydd yn ystyried perthnasedd, hygrededd a chywirdeb y ffeithiau yma. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn lleoli eu gwaith yn daclus ar y sgrin gan amrywio ffurf a maint penawdau ac yn ategu lluniau a darluniau yn ôl y galw. Nid yw medrau darlunio cyfrifiadurol llawer o'r plant wedi datblygu ddigon ac nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i gyflwyno eu gwaith graffeg eu hunain mewn pecynnau prosesu geiriau neu becynnau cyflwyno.

Mae cyfleoedd i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion wedi eu nodi'n briodol yn y cynlluniau tymor hir a chanolig. Serch hynny, nid ydynt wedi eu hamlygu'n ddigon manwl yn y cynlluniau tymor byr.

Argymhelliad 3: Sicrhau gweledigaeth gadarn a threfn weithredu strategol sy'n llawer mwy dadansoddol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn sy'n canolbwyntio ar godi safonau. Mae ganddi adnabyddiaeth dda o'r ysgol ac mae'n cynnig cyfeiriad strategol clir i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'n rhannu'r weledigaeth yn effeithiol gyda'r disgyblion, holl staff yr ysgol a'r corff llywodraethol. Maent i gyd yn cydweithio'n llwyddiannus i sicrhau bod yr ysgol yn codi safonau ac mae systemau monitro effeithiol yn eu lle. Mae nodau ac amcanion yr ysgol yn glir ac yn sail gadarn i'w holl weithgareddau.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau yn effeithiol ac yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn dda. O dan arweiniad y pennaeth, mae'r corff erbyn hyn yn fwy ymwybodol o berfformiad yr ysgol ac yn cyfrannu'n well at y broses hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r Grŵp Datblygu Ysgol, is-bwyllgor o'r corff llywodraethol, yn dehongli ystod briodol o ddata ac yn ymweld â dosbarthiadau yn gyson.

Mae'r ysgol wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer casglu barn y rhieni a'r disgyblion trwy holiaduron ac maent yn ymateb i'w dyheadau ac awgrymiadau yn briodol. Mae aelodau cyngor yr ysgol yn frwdfrydig a chaiff safbwyntiau a syniadau disgyblion eu hystyried o ddifrif a'u cynnwys yng nghynlluniau strategol yr ysgol. Gwneir defnydd cyson a chynhwysfawr o'r 'Bocs Siarad', sydd yn gyfrwng effeithiol i ddisgyblion leisio barn.

Argymhelliad 4: Sicrhau bod proses hunan arfarnu'r ysgol yn llawer mwy arfarnol a bod y cynllun datblygu ysgol yn ddogfen llawer mwy pwrpasol sy'n cynnwys targedau meintiol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu cryfderau a meysydd i'w datblygu yn effeithiol. Lluniodd y pennaeth, y staff a'r Grŵp Datblygu Ysgol yr adroddiad ar y cyd cyn ei rannu'n llawn gyda'r corff llywodraethol.

Mae'r ysgol wedi datblygu gweithdrefn fanwl a chynhwysfawr ar gyfer hunan arfarnu sy'n cynnwys casglu barn rhanddeiliaid ac arsylwi ar ddysgu ac addysgu. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ddata perfformiad i ddadansoddi canlyniadau a thueddiadau ac i gynllunio'n strategol ar gyfer gwella. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod yr holl staff, rhieni, disgyblion a'r llywodraethwyr yn cael eu cynnwys yn y broses hunan arfarnu.

Yn sgil y cydweithio agos hwn, mae mwyafrif o flaenoriaethau gwella'r ysgol yn cysylltu'n glir â'r cynllun datblygu ysgol. Er enghraifft, mae codi safonau darllen a rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi eu hadnabod fel dau o'r blaenoriaethau cyfredol. Mae strategaethau addas i sicrhau'r gwelliannau yn cael eu hadnabod ac mae'r rhain yn cynnwys dangosyddion llwyddiant meintiol, amserlenni penodol ynghyd â chyfrifoldebau staff.

Argymhelliad 5: Gwella dealltwriaeth y corff llywodraethol o ddata meincnodi er mwyn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfri yn well

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

O dan arweiniad y Cadeirydd newydd mae'r Llywodraethwyr yn cymryd rhan fwy gweithredol ym mywyd yr ysgol. Maent yn gefnogol ac mae ganddynt ymwybyddiaeth well o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae ychydig o lywodraethwyr wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant penodol i lywodraethwyr yn ystod y flwyddyn ac mae hyn wedi sicrhau fod ganddynt ymwybyddiaeth well o'u rôl. Bellach maent yn gwneud cyfraniad effeithiol i gynllunio'n strategol trwy is bwyllgorau'r corff llawn.

Sefydlodd y llywodraethwyr is-grŵp, y Grŵp Datblygu Ysgol, er mwyn craffu'n fwy manwl ar berfformiad yr ysgol yn fuan ar ôl yr arolygiad. Yn ystod y flwyddyn, maent wedi rhannu'r cyfrifoldeb dros bennu blaenoriaethau ar gyfer y cynllun gwella ôl-arolygiad, datblygu'r ysgol ar sail cyllid, perfformiad a chanfyddiadau monitro ac arfarnu asesiadau'r ysgol.

Mae'r llywodraethwyr bellach yn derbyn adroddiadau manwl am ddata perfformiad yr ysgol gan gynnwys dadansoddiadau ar setiau data craidd. Mae ganddynt well ymwybyddiaeth o berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill yn y teulu. Maent hefyd yn fwy ymwybodol o'r ffactorau penodol sy'n cael effaith ar yr ystadegau, er enghraifft niferoedd sydd yn y grwpiau, hwyr ddyfodiaid ac addysg arbennig. Maent yn monitro cynnydd blaenoriaethau'r cynllun gwella ôl-arolygiad a'r cynllun datblygu ysgol ymhob cyfarfod.

Er y cynnydd hwn nid yw'r llywodraethwyr i gyd yn ddigon gwybodus er mwyn gweithredu fel cyfeillion beirniadol effeithiol i'r ysgol.

Argymhelliad 6: Sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefnau diogelu priodol ar waith

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Yn dilyn yr arolygiad, mae'r ysgol wedi sicrhau bod y polisi amddiffyn plant yn cael ei weithredu'n drylwyr. Mae gan bob aelod o staff gymhwyster amddiffyn plant cyfredol priodol ac mae dau aelod o'r corff llywodraethol wedi bod ar gyrsiau amddiffyn plant.

Mae'r holl staff yn ymwybodol o drefniadau amddiffyn plant ac enwau'r llywodraethwr ac aelod o staff dynodedig. Mae pob aelod o staff a'r llywodraethwyr wedi derbyn gwiriad Swyddfa Cofrestru Troseddwy'r cyfredol.

Argymhelliad 7: Sicrhau bod y corff llywodraethol yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Yn dilyn cyngor gan swyddog mynediad awdurdod lleol Gwynedd, mae cynllun hygyrchedd yr ysgol wedi ei addasu ac wedi ei fabwysiadu gan y corff llywodraethol. i wneud arolwg o'r ysgol ac i awgrymu addasiadau i'r safle er mwyn sicrhau hygyrchedd. Mae'r llywodraethwyr wedi derbyn addasiadau i'r cynllun ac wedi ei fabwysiadu. Cyhoeddwyd y cynllun ar wefan yr ysgol ac mae cyfeiriad penodol ato yn y prospectws ysgol. Mae'r ysgol hefyd wedi gwneud mân welliannau i'r adeilad i sicrhau gwell hygyrchedd.

Argymhellion

Dylai'r ysgol barhau i roi sylw i'r argymhellion nad yw eto wedi mynd i'r afael â hwy yn llawn.